YSGOL GYMRAEG CASTELL-NEDD

Pennaeth: Mr D.T.Jones B.Add.
Heol Woodland, Castell-nedd. SA11 3AL.
Ffôn: 01639 637701 **Ffacs:** 01639 639772
e-bost: yggcastellnedd@npted.org
yggctn-d.t.jones@npted.org
gwefan: www.yggcn.co.uk

Mawrth 26ain, 2010.

Annwyl Rieni,

1. Mae nifer cynyddol o rieni yn gofidio'n fawr am fater diogelwch difrifol wrth y fynedfa i lôn yr ysgol. Mae'n debyg fod lleiafrif bach o rieni yn y boreau yn mynnu gyrru eu ceir mor bell â mynedfa'r ysgol cyn ffarwelio â'u plant, ac felly'n peryglu diogelwch plant eraill, sydd yn eu tro yn gorfod gwau llwybr peryglus rhwng ceir wedi eu parcio yn ogystal â cheir symudol. Mae'r fath ymddygiad anghyfrifol yn siwr o arwain at ddamwain i un o'n plant. Fel y gwyddoch rwy'n siwr, mae gan bob riant gyfrifoldeb moesol at ddiogelwch **pob** plentyn yn ein hysgol, ac nid yn unig tuag at eu plant eu hunain!

Diolchwn i'r drefn fod y mwyafrif o'n rhieni yn mabwysiadu agwedd synhwyrol a chall trwy barcio'u ceir ymhell o lôn yr ysgol, ac yn dewis cerdded eu plant yr ychydig ffordd o'u ceir i'r ysgol. **Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod chi ymhlith y rhieni synhwyrol hynny!**

2. Fe gofiwch o lythyr blaenorol (8.3.10) fod yr ysgol ar gau i blant ar Ddydd Llun, Mawrth 29ain oherwydd Hyfforddiant Mewn-Swydd i'r staff.

3. Gwyliau'r Pasg: Dydd Gwener, Ebrill 2ail – Dydd Sul, Ebrill 18fed.

Dear Parent,

*1. An increasing number of parents are becoming extremely concerned with a worrying safety issue at the entrance to the school lane, at its junction with Woodland Road. It seems that a small minority of parents insist on dropping off their children at the entrance to the school lane every morning, thus endangering the safety of other children, who are forced to negotiate a path between parked and moving cars. This **irresponsible** practice will inevitably result in an accident to one of our children. Needless to say, all parents have a moral responsibility to ensure the safety of **every** child at our school, and not just their own children!*

*Thankfully, the majority of our parents exercise common sense by parking their cars well away from the school lane, and choose to walk their children the short distance from the car to the school. **Please ensure that you are also one of those sensible parents!***

2. You will remember from a previous letter (8.3.10) that the school is closed to pupils on Monday, March 29th due to In-service training for staff.

3. Easter holidays: Friday, April 2nd – Sunday, April 18th inclusive.